WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi – **Cyngor Sir y Fflint**


Blwyddyn yr archwiliad: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1535A2019-20

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi at ddefnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn cyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn ei swydd unigol, nac mewn cysylltiad ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddir dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae'r Cod yn adran 45 yn gosod allan yr ymarfer wrth drin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu'r ddogfen hon neu ei hailddefnyddio gael eu hanfon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales <mailto:info.officer@audit.wales>.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi dim oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

This document is also available in English.

Y tîm a ddarparodd y gwaith hwn oedd Gwilym Bury, Sabel Wiliam a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor drwy ddilyn ei weledigaeth sydd wedi ei gosod allan yn glir, yn dal i fuddsoddi mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, ac mae wedi gwrando ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth i helpu sicrhau bod y cyhoedd yn fodlon, ond mae cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd i ailgylchu'n fwy effeithiol yn gallu bod yn llesol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 6

Mae'r Cyngor yn dal i fuddsoddi yn ei Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer ei ganolfannau 6

Mae mwyafrif y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn hapus â'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, ond mae cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd i ailgylchu'n fwy effeithiol yn gallu bod yn llesol 7

Atodiadau

Atodiad 1 – ffeithlun o ganlyniadau'r arolwg 9

# Adroddiad Cryno

## Crynodeb

### Beth gafodd ei arolygu gennym a pham

1 Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (CAGCau) yn rhoi i'r cyhoedd gyfleoedd i ailgylchu eu gwastraff, ac mae'r safleoedd hyn wedi helpu cynghorau yng Nghymru i wella perfformiad ailgylchu. Gall Canolfannau gynyddu ailgylchu gyda chymharol ychydig fuddsoddi o'i gymharu â dewisiadau eraill. Gall gwella isadeiledd safleoedd gynyddu'r ystod o gyfleoedd i ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff. Yn ogystal mae ffactorau 'pobl', megis staff croesawus effeithlon mewn safleoedd, a hwylustod ar y safleoedd yn helpu cynyddu effeithlonrwydd gwahanu gwastraff a pharodrwydd dinasyddion i ddefnyddio' cyfleusterau.

2 Mewn nifer o ardaloedd gwasanaeth llywodraeth leol, mae gallu pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i ddylanwadu ar wasanaethau er mwyn iddynt fodloni eu hanghenion yn dibynnu ar 'lais' yn hytrach 'dewis'. Mae hyn naill ai oherwydd nad oes darparwyr eraill ar gael, neu lle mae dewisiadau amgen bod rhwystrau megis cost neu gyfleustra yn golygu bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael mai ychydig neu ddim mynediad sydd iddynt. Golyga hyn fod barn pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u gallu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn arbennig o bwysig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac ymyriadau sy'n bodloni anghenion pobl.

3 Mae cyd-destun adnoddau i gyrff llywodraeth leol sy'n crebachu yn ysgogiad pellach i sicrhau bod gwasanaethau ac ymyriadau yn cymryd i ystyriaeth farn, profiadau a dyheadau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae sicrhau bod profiadau, barn a dyheadau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu hystyried wrth benderfynu sut a pha wasanaethau i'w lleihau, eu cynyddu neu eu newid mewn rhyw ffordd arall yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd gwasanaethau'n bodloni anghenion pobl ac felly'n rhoi gwell gwerth am yr arian.

4 Mae Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yn darparu cyfleoedd ailgylchu i drigolion drwy elusen leol sy'n casglu dodrefn ac eitemau trydan y gellir eu hailddefnyddio o'u tai yn rhad ac am ddim, 23 o fanciau ailgylchu lleol, a gwasanaeth wythnosol y Cyngor o ddrws i ddrws i gasglu eitemau i'w hailgylchu.

5 Mae gan y  Cyngor hefyd bum CAGC i ganiatáu i drigolion ailgylchu gwastraff o'u cartrefi.  At hynny, gall trigolion ddod ag eitemau gwastraff cyffredinol i'r CAGCau. CAGCau y Cyngor yw testun ein harolwg, a datblygwyd arolwg i ofyn i ddinasyddion am eu barn amdanynt.

6 Roedd yr arolwg hwn yn ystyried:

- strategaeth a pherfformiad CAGCau y Cyngor yn erbyn y weledigaeth sydd wedi'i gosod allan yn y strategaeth; a
- sut mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn teimlo am y CAGCau ac a ydynt yn teimlo'u bod yn gallu ychwanegu at eu cynllunio a'u darparu.

7 Roedd ein harolwg ar gael ar-lein yn ystod Ebrill a Mai 2019. Cafodd ei hyrwyddo gan Swyddfa Archwilio Cymru a thrwy wefan y Cyngor. Yn ogystal, yn ystod pum

diwrnod buom yn ymweld â phob un o bum GAGC y Cyngor lle cawsom siarad â phobl yn defnyddio'r gwasanaeth. Rhwng popeth cawsom 887 o ymatebion – 488 yn y CAGCau a 399 ar-lein. Dim ond 23 o ymatebion a gafwyd oddi wrth bobl nad oeddent yn byw yn Sir y Fflint, sef pobl yn byw yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Swydd Caer.

## Beth a ddarganfuwyd

8 Roedd ein harolwg yn ceisio cael ateb i'r cwestiwn: **A yw anghenion, profiadau a dyheadau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cyfrannu at gynllunio a darparu gwasanaethau i fodloni eu hanghenion yn agosach?**

9 Yn gyffredinol, cawsom fod: **Y Cyngor yn dilyn ei weledigaeth sydd wedi'i gosod allan yn glir, yn parhau i fuddsoddi mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi ac wedi gwrando ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i helpu sicrhau bod y cyhoedd yn fodlon. Ond mae cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd i ailgylchu'n fwy effeithiol yn gallu bod yn llesol.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn dal i fuddsoddi yn ei Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, ac mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei Ganolfannau; ac
- mae mwyafrif y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn fodlon â'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, ond mae cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd i ailgylchu'n fwy effeithiol yn gallu bod yn llesol.

## Cynigion ar gyfer gwella

### Dangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn gosod allan y cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr arolwg hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| P1 | Dylai'r Cyngoor ystyried sut i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ailgylchu a sut y gallant ailgylchu'n fwy effeithiol mewn CSGCau er mwyn lleihau'r gwastraff cyffredinol na ellir ei ailgylchu. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor, drwy ddilyn ei weledigaeth sydd wedi'i gosod allan yn glir, yn parhau i fuddsoddi mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, ac mae wedi gwrando ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i'w helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn fodlon, ond mae cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd i ailgylchu'n fwy effeithiol yn gallu bod yn llesol

### Mae'r Cyngor yn dal i fuddsoddi yn ei Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer ei Ganolfannau

10 Ers nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ei ddull o gynyddu adfer ac ailgylchu gwastraff. Mabwysiadodd Strategaeth Gwastraff Trefol yn 2010, wedi ei gynllunio i helpu cyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru, ac yna Bolisi Casglu Gwastraff Cartrefi (y Polisi) yn 2011. Cafodd y Polisi ei ddiwygio a'i ddiweddaru yn 2013, 2015 a 2016 i ymgorffori trefniadau newydd ar gyfer gwella cyfraddau ailgylchu yn unol â thargedau diwygiedig Llywodraeth Cymru.

11 Roedd newidiadau a wnaed yn y Polisi yn 2016-17 yn cynnwys lleihau nifer y safleoedd CAGC o saith i bump, a'r safleoedd a oedd yn weddill yn cael eu huwchraddio ac adeiladu safle newydd ym Maes-glas, a agorodd yn 2019.

12 Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi yn ei CAGCau rhwng 2017 a 2019. Darparodd arian cyfalaf o £0.6 miliwn i gwblhau gwaith ailddatblygu yn 2017 i 2019, ac £1.7 miliwm o arian ychwanegol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

13 Roedd cynlluniau busnes blynyddol y Cyngor yn gosod allan flaenoriaethau clir i ddarparu gwasanaeth CAGC cynaliadwy o safon. Bydd y Cyngor yn rheolaidd yn monitro ac yn adolygu perfformiad CAGCau sy'n dal i wella. Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm canran y gwastraff yn Sir y Fflint a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei droi'n gompost (gan gynnwys CAGCau a dulliau casglu eraill) o 55% yn 2012-13 i 68% yn 2017-18, sef y drydedd ganran uchaf i gyngor yng Nghymru.

14 Ychydig newid sydd wedi bod yn nifer cyffredinol staff CAGCau, ac mae telerau ac amodau wedi parhau'r un fath am y ddwy flynedd diwethaf. Nid yw'r Cyngor wedi newid telerau ac amodau staff i leihau costau, ac nid yw'n bwriadu gwneud hynny.

15 Mae swyddogion ac aelodau'r o'r Cyngor y siaradwyd a hwy yn deall yn dda yr angen am ailgylchu cymaint â phosibl er mwyn lleihau tirlenwi, cynyddu ailgylchu ac annog pobl i beidio â gadael sbwriel yn anghyfreithlon. Maent yn ymwybodol fod

angen i staff CAGCau hyrwyddo ailgylchu, ac mae'n nodi ffyrdd y gall fynd i'r afael ag anghysondebau yn ymddygiad staff drwy roi mwy o hyfforddiant.

## Mae mwyafrif y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn hapus â'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, ond mae cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd i ailgylchu'n fwy effeithiol yn gallu bod yn llesol

16 Bron i ddwy ran o dair (65%) o'r bobl a atebodd yr arolwg a oedd yn teimlo nad yw casgliadau gan y Cyngor yn bodloni eu holl anghenion ailgylchu a gwastraff dros ben, a theimlant ei bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r CAGC i waredu'r defnydd ychwanegol hwn.

17 Polisi'r Cyngor yw y bydd y gwastraff cyffredinol ym mhob CAGC na ellir ei ailgylchu 'mewn bagiau yn cael ei agor i'w archwilio am eitemau y gellir eu hailgylchu.' Caiff arwyddion mawr eu harddangos yn amlwg ym mhob safle i hysbysu am hyn. Gwelwyd pobl yn cael eu holi gan staff CAGCau am gynnwys gwastraff mewn bagiau, ond ychydig archwilio a welsom yn digwydd. Adeg yr arolwg, dim ond ar adegau roedd y polisi hwn yn cael ei ddilyn, a byddai gwneud hynny o bosibl wedi achosi ciwiau hir o gerbydau wrth fynedfeydd safleoedd. Dywedodd rhai pobl a atebodd yr arolwg nad oeddent yn dymuno ailgylchu, a gwyddent fod eu gwastraff mewn bagiau'n annhebygol o gael ei archwilio'n gorfforol yn y CAGC. Yr eitem unigol fwyaf poblogaidd (98% o'r bobl a atebodd ein harolwg) a oedd wedi cyrraedd CAGCau yn y ddwy flynedd diwethaf oedd gwastraff cyffredinol. Er nad yw'n bosibl dweud faint o ddefnydd y gellir hwyrach ei ailgylchu sy'n cael ei golli yn y gwastraff cyffredinol, mae nifer y ceirt a welsom yn cael eu llenwi â sachau gwastraff cyffredinol dros bum diwrnod ym mhob un o'r safleoedd CAGC yn awgrymu y gallai fod yn sylweddol. Dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ohebu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd i gynyddu eu dealltwriaeth o'r rheswm pam mae ailgylchu'n bwysig a sut i ailgylchu mwy wrth ddefnyddio'r canolfannau.

18 Er bod mwyafrif y sylwadau a gawsom yn yr arolwg yn rhai cadarnhaol iawn am y gwasanaeth CAGC, soniodd rhai o'r atebwyr am y gwahaniaethau rhwng oriau agor yn yr haf a'r gaeaf; ym misoedd yr haf yr oriau agor yw 10am i 6pm, ac yn y gaeaf bydd yr oriau agor yn newid i 9am i 5pm. Dywedodd atebwyr yr arolwg a siaradodd â ni fod oriau agor gwahanol yn ddryslyd a bod oriau'r haf yn llai cyfleus i'r mwyafrif o bobl. Sylwyd ym mhob safle ar nifer o gerbydau'n disgwyl i'r CAGC agor am 10am ac mai'r cyfnod o 5pm i 6pm oedd yr adeg dawelaf o'r dydd ym mhob safle.

19 Mae'r Cyngor yn weithgar yn ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gall ddangos ei fod yn defnyddio ymateb gan gwsmeriaid i gynorthwyo wrth ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, wrth adolygu ei CAGCau, ymgynghorodd y Cyngor â defnyddwyr canolfannau am newidiadau arfaethedig ac yna wedi newid ei gynlluniau i ymateb i awgrymiadau pobl. Ymgynghorwyd ymhellach ar y rheiny mewn cysylltiad â'r cynigion newydd ar gyfer y Fflint a Chei Connah.

20 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ymgysylltu â thrigolion a gweithio gyda nhw wrth gynyddu cyfraddau ailgylchu. Bu'r Cyngor yn ymgysylltu ag aelodau lleol a chynghorau cymuned ynglŷn â'r cynigion i gau CAGCau yn 2017 a hefyd yn 2018, ac archwiliodd y potensial o drosglwyddo asedion cymunedol a chadw rhai o'r safleoedd a oedd wedi'u clustnodi ar gyfer eu cau. Gwnaeth y Cyngor hefyd arolwg o drigolion am ddarparu gwasanaethau gwastraff a dyheadau ar gyfer darpariaeth CAGCau. Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ledled y sir yn 2017 i roi gwybod i drigolion am newidiadau yn y drefn gasglu ac i dynnu sylw at y defnyddiau ychwanegol a fyddai'n cael eu casglu ar gyfer eu hailgylchu. Drwy ymateb i bryderon y cyhoedd a chraffu ar gynigion i gau CAGCau yn 2017, archwiliodd y Cyngor ddewisiadau a fyddai'n darparu cyfaddawd rhwng argymhelliad WRAP[1] am y tri CAGC a dewis trigolion o gael darpariaeth fwy lleol. O ganlyniad, penderfynodd y Cyngor gadw CAGC Bwcle a'i uwchraddio a chael un cyfleustra CAGC modern yn lle safleoedd presennol y Fflint a Chei Connah.

21 Er hyn, ni allai mwy na dwy ran o dair (68%) a'r rhai a atebodd ein harolwg gofio bod y Cyngor wedi ymgysylltu â nhw a gofyn eu barn am wasanaethau CAGCau. Felly, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall gyfleu'n fwy effeithio ganlyniadau ei ymgysylltu.

22 O ganlyniadau ein harolwg gwelsom hefyd:

- Fod mwyafrif y rhai a atebodd ein harolwg yn hapus â gwasanaethau CAGCau Sir y Fflint:
  - mae 71% yn credu bod ansawdd y gwasanaeth wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf;
  - mae 69% yn ystyried bod y gwasanaethau'n rhoi gwerth da am yr arian; ac
  - mae 59% yn cael bod y staff yn gwrtais ac yn gymwynasgar.
- Roedd mwyafrif y bobl y siaradwyd â hwy yn ein harolwg yn eithaf gwybodus am y CAGCau lleol:
  - roedd 92% yn gwybod pa wasanaethau CAGCau sydd ar gael yn lleol; a
  - dywedodd 89% ei bod yn hawdd iddynt ddod o hyd i'r wybodaeth roedd arnynt ei hangen am CAGCau.
- Dywedodd y bobl y siaradwyd â hwy yn ein harolwg mai'r pum eitem fwyaf poblogaidd i'w hailgylchu i gyrraedd CAGCau yn y ddwy flynedd diwethaf oedd pren, gwastraff gardd, cardfwrdd, rwbel ac eitemau trydan.

[1] Mae'r Rhaglen Gweithredu ar Wastraff ac Adnoddau (sy'n gweithredu fel WRAP) yn elusen gofrestredig yn y DG sy'n darparu cyngor ac arweiniad ar draws Cymru

# Atodiad 1

## Canlyniadau'r arolwg

### GWASANAETH CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF CARTREFI CYNGOR SIR Y FFLINT

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu pum Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (CAGC) i ganiatáu i drigolion ailgylchu gwastraff o'u cartrefi. At hynny, gall trigolion ddod ag eitemau gwastraff cyffredinol sydd dros ben i'r 4 CAGC. Mae yna gyfleoedd ailgylchu ychwanegol ar gael i drigolion drwy elusen leol sy'n casglu dodrefn ac eitemau trydan y gellir eu hailddefnyddio o'u cartrefi yn rhad ac am ddim, 23 o fanciau ailgylchu lleol a chasgliad wythnosol y Cyngor o ddrws i ddrws i gasglu eitemau i'w hailgylchu. Datblygwyd arolwg gennym i ofyn i drigolion am eu barn am Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn Sir y Fflint.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein yn ystod Ebrill a Mai 2019. Cafodd ei hyrwyddo gan Swyddfa Archwilio Cymru a thrwy wefan y Cyngor. Yn ogystal, yn ystod pum diwrnod buom yn ymweld â phob un o bum GAGC y Cyngor lle cawsom siarad â phobl yn defnyddio'r gwasanaeth. Rhwng popeth cawsom 887 o ymatebion - 488 yn y CAGCau a 399 ar-lein. Mae'r canlyniadau isod yn seiliedig ar nifer yr ymatebion i bob cwestiwn. Dim ond 23 o ymatebion a gafwyd oddi wrth bobl nad oeddent yn byw yn Sir y Fflint. Dyma oedd nifer yr ymatebion a gafwyd am bob CAGC fel hyn (roedd rhai pobl yn defnyddio mwy nag un ganolfan).

| | |
|---|---|
| **Maes-glas** | **135** |
| **Rockliffe** | **176** |
| **Yr Wyddgrug** | **248** |
| **Sandycroft** | **245** |
| **Bwcle** | **283** |

"Gan fod y Cyngor nawr wedi penderfynu codi tâl am gasglu gwastraff gardd wrth ymyl y ffordd, rhaid iddyn nhw fynd â'r defnydd na allant ei droi'n gompost i'r ganolfan ailgylchu."

**Yr eitem unigol fwyaf poblogaidd (98%) i gyrraedd CAGCau yn y ddwy flynedd diwethaf oedd gwastraff cyffredinol na ellid ei ailgylchu.**

**Y pum eitem fwyaf poblogaidd y gellir eu hailgylchu i gyrraedd CAGCau yn y ddwy flynedd diwethaf oedd Pren, Gwastraff Gardd, Cardfwrdd, Rwbel ac Eitemau Trydan.**

"Ceirt yn rhy uchel ar gyfer gwastraff gardd (sylwadau cyffredin yn Sandycroft, Bwcle a'r Wyddgrug)."

**Roedd 71% o'r rhai a atebodd yn credu bod safon gyffredinol CAGCau yn Sir y Fflint wedi gwella yn y ddwy flynedd diwethaf.**

"Mae gwelliannau mewn CAGCau yn y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn haws ailgylchu."

**Roedd 69% o'r rhai a atebodd yn credu bod CAGCau Sir y Fflint yn werth da am yr arian.**

"Cyfleustra rhagorol"

**Mae 92% o ymatebwyr yn gwybod pa wasanaethau ailgylchu sydd ar gael yn eu hardal.**

"Gwasanaeth da yn cael ei reoli'n dda."

**Roedd 89% o ymatebwyr yn dweud ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau CAGC y Cyngor.**

Dywedodd **68%** nad oedd ymgynghori effeithiol wedi bod am newidiadau diweddar mewn gwasanaethau CAGCau.

"Byddai agor o 9 i 5 drwy'r flwyddyn yn well a dim newid yn amserau agor yr Haf."

Dyma'r rhesymau mwyaf cyffredin dros ddefnyddio gwasanaethau CAGC y Cyngor:

**76%**
Lleoliad cyfleus

**63%**
Amrywiaeth o geirt ar gael

**59%**
Staff yn gwrtais ac yn gymwynasgar

"Mae safle CAGC Bwcle wedi'i gynllunio'n wael ar gyfer parcio a'r arwyddion ato'n wael."

**65%**
Nid yw'r casgliadau gan y Cyngor o'u cartrefi yn bodloni eu holl anghenion ailgylchu a gwastraff sydd dros ben a theimlent ei bod yn rhaid defnyddio'r CAGCau.

**65%**
Mae'n bwysig y dylai pobl ailgylchu cymaint â phosibl.

"Mae'r staff bob amser yn eich helpu i ddadlwytho."

Dim ond **23%** ddywedodd y byddent yn dal i ddefnyddio CAGCau i waredu rwbel, plastrfwrdd, ffelt to neu deiars pe bae'n rhaid iddynt dalu cyfraniad i'r Cyngor.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi'r Archwilydd Cyffredinol fel corff gwarchod y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau bod pobl Cymru'n gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n deall sut i wella canlyniadau. I gael gwybod rhagor ewch i'n gwefan www.audit.wales

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru